Person Perthnasol	Ymchwiliad	Dyddiad rhoi hysbysiad penderfynu	Canfyddiadau a dyfarniad y Comisiynydd
Cyngor Sir Gâr	**CS1201** Mae'r achwynydd yn honni bod hysbysiad cofrestru etholiadol Cymraeg anfonwyd gan Gyngor Sir Gaerfyrddin yn cynnwys cyfeiriad Saesneg i'w gartref. Darparwyd sgrin-lun o'r hysbysiad dan sylw oedd yn cadarnhau hyn.	12/04/2024	**Canfyddiadau'r Comisiynydd** Y gofynion perthnasol dan sylw'r ymchwiliad yw safonau 4 a 6. Yn dilyn derbyn tystiolaeth gan y Cyngor, mae'r ohebiaeth dan sylw yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol am nad yw cyfeiriad yr achwynydd wedi ei nodi yn Gymraeg, a hynny er gwaetha'r ffaith bod stryd cartref yr achwynydd wedi ei gofrestru yn Gymraeg gan y Cyngor. Mae hyn yn groes i ofynion safon 6. Gan ystyried tystiolaeth y Cyngor, ymddengys mai problem gyda'r cyfeiriadau post a ddefnyddir gan ddarparwyr meddalwedd y Cyngor sydd wrth wraidd yr hyn o fewn cwyn yr achwynydd. Mae hyn tu hwnt i reolaeth y Cyngor. O ganlyniad, er canfod methiant, ni byddaf yn gweithredu ymhellach nac yn gosod camau gorfodi ar y Cyngor. Byddaf yn gofyn i fy swyddogion gysylltu gyda chwmni meddalwedd IDOX a'r Post Brenhinol am eu hymateb i'r canfyddiadau yma ac i ystyried datrysiad i'r sefyllfa fydd yn sicrhau cydymffurfiaeth y Cyngor â Safonau'r Gymraeg. Rwyf hefyd yn argymell bod fy swyddogion yn cynnal ymarferiad i gasglu gwybodaeth gan holl awdurdodau lleol Cymru am eu trefniadau cyfredol wrth baratoi gohebiaeth cofrestru etholiadol er mwyn deall sut mae'r awdurdodau lleol yn creu gohebiaeth cofrestru etholiadol yn unol â Safonau'r Gymraeg. 4 – Methiant

			6 – Dim methiant
Cyngor Sir y Fflint	**CS1202** Derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd oedd yn honni fod enwau Cymraeg wardiau etholiadol wedi eu camsillafu ar wefan y Cyngor, a thestun uniaith Saesneg yn ymddangos ar dudalennau oedd yn rhoi gwybodaeth am gynghorwyr y Cyngor. Dyma'r ail dro i'r achwynydd gyflwyno cwyn am y mater yma. Penderfynwyd peidio ymchwilio i'r gŵyn gyntaf yn dilyn ymrwymiadau gan y Cyngor i fynd i'r afael â'r mater.	11/04/2024	**Canfyddiadau'r Comisiynydd** Y gofyniad perthnasol dan sylw'r ymchwiliad yw safon 52. Yn yr achos hwn, mae'r dudalen dan sylw ar wefan y Cyngor wedi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg am y rhesymau nododd yr achwynydd yn y gŵyn, a hynny'n groes i ofynion safon 52. Safon 52 – Methiant **Gweithredu Pellach** 1. Rhaid i Gyngor Sir y Fflint wirio cywirdeb sillafiad enw pob ward etholiadol y Sir ar ei wefan. 2. Rhaid i'r Cyngor ddosbarthu ei becyn cymorth ar gyfer datblygwyr meddalwedd dwyieithog i bob aelod o staff perthnasol unwaith eto, gan dynnu sylw penodol staff at y gofyniad i sicrhau dylai "ansawdd ieithyddol fod ar yr un lefel ar gyfer y ddwy iaith" (cymal 1.3 y pecyn). 3. Rhaid i'r Cyngor fonitro sampl o 10 dudalen ar ei wefan o fewn blwyddyn, i wirio bod y cynnwys Cymraeg yn gywir yn unol â gofynion safon 52. 4. Rhaid i Gyngor Sir y Fflint ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-3.
Cyngor Sir Powys	**CS1171** Mae dwy elfen i'r gŵyn hon. Yn gyntaf, honnai'r achwynydd bod cyhoeddiadau uniaith Saesneg ar system annerch gyhoeddus bws Traws Cymru o'r Drenewydd i Gaerdydd ar 05/07/2023, yn ogystal	10/04/2024	**Canfyddiadau'r Comisiynydd** Y gofynion perthnasol dan sylw'r ymchwiliad yw Safonau 87, 61 a 62. Yn yr achos hon, mae'r Gymraeg wedi cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng nghyhoeddiadau system annerch gyhoeddus y gwasanaeth bws rhwng y Drenewydd a Chaerdydd, a hynny'n groes i ofynion safon

â cyhoeddiadau ble roedd y Gymraeg yn dilyn y Saesneg ar y system annerch gyhoeddus. Yn ail, honnai'r achwynydd bod y Gymraeg yn dilyn y Saesneg ar sgrin ddigidol y gwasanaeth bws o'r Drenewydd i Gaerdydd.	87. Hefyd, fe driniwyd y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o achos Cymraeg gwallus ar sgriniau ddigidol y gwasanaeth bws, yn groes i ofynion safon 61. Nid oedd methiant fodd bynnag i gydymffurfio â safon 62 gan fod y testun sy'n cael ei arddangos yn ymddangos yn gylchol. Safon 87 – Methiant Safon 61 – Methiant Safon 62 – Dim methiant **Gweithredu Pellach** Safon 87 1. Rhaid i Gyngor Sir Powys greu canllaw neu arweiniad i'w staff a chontractwyr gwasanaeth bws sydd yn egluro gofynion safonau 87 mewn perthynas â chyhoeddiadau system annerch gyhoeddus, a thynnu sylw y staff a contractwyr perthnasol at y ddogfen honno 2. Rhaid i'r Cyngor greu gweithdrefn wirio ar gyfer arsylwi cydymffurfiaeth y gwasanaeth bws gyda gofynion safonau'r Gymraeg, gan gynnwys safonau 87 a 61. 3. Rhaid i'r Cyngor wirio cywirdeb enwau sampl o bymtheg aros-fan sydd yn cael eu dangos ar sgriniau ddigidol y gwasanaeth bws T4, o fewn cyfnod o 3 mis. Mae hyn yn berthnasol i aros-fannau ar y gwasanaeth T4 sydd yn disgyn dan gyfrifoldeb y Cyngor yn unig. Safon 61 4. Rhaid i'r Cyngor wirio cywirdeb enwau Cymraeg pob aros-fan bws ar wasanaeth bws T4 o fewn cyfnod o dair mis, a chywiro unrhyw enwau anghywir sydd yn cael eu canfod. Mae hyn yn berthnasol i aros-fannau ar y

	gwasanaeth T4 sydd yn disgyn dan gyfrifoldeb y Cyngor yn unig.